



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad

Llun

Nodiadau

Ioan 1: 28-51



- 1 Roedd Ioan Fedyddiwr ger afon yr Iorddonen ym Methania. Roedd e wedi bedyddio Iesu ac roedd yn dweud wrth y bobl, "Gwelais yr Ysbryd Glân yn disgyn o'r nefoedd fel colomen ac yn aros arno. Cyn hynny doeddwn i ddim yn gwybod mai fe oedd yr un, ond roedd yr un anfonodd fi i fedyddio â dŵr wedi dweud wrtho i, 'Os gweli di'r Ysbryd yn dod i lawr ac yn aros ar rywun, dyna'r un fydd yn bedyddio â'r Ysbryd Glân.' A dyna welais i'n digwydd! Dw i'n dweud wrthoch chi mai Iesu ydy Mab Duw."



- 2 Roedd Ioan yno eto'r diwrnod wedyn gyda dau o'i ddisgyblion. Wrth i Iesu fynd heibio, roedd Ioan yn syllu arno, ac meddai "Edrychwch! Oen Duw!"



-
- 3 Dyma'r ddau ddisgybl glywodd beth ddwedodd Ioan yn mynd i ddilyn Iesu. Trodd Iesu a'u gweld nhw'n ei ddilyn, a gofynnodd iddyn nhw, "Beth dych chi eisiau?" "Rabbi" medden nhw "ble rwyd ti'n aros?" Atebodd Iesu nhw, "Dewch i weld."



-
- 4 Felly dyma nhw'n mynd i weld lle roedd yn aros, a threulio gweddill y diwrnod gydag e. Roedd hi tua pedwar o'r gloch y p'nawn erbyn hynny. Andreas (brawd Simon Pedr) oedd un o'r ddau.




-
- 5 Y peth cyntaf wnaeth wedyn oedd mynd i chwilio am ei frawd Simon, a dweud wrtho, "Dŷn ni wedi dod o hyd i'r Meseia" (gair Hebraeg sy'n golygu 'Yr un wedi ei eneinio'n frenin').




-
- 6 Aeth Andreas ag e i gyfarfod Iesu. Edrychodd Iesu arno, ac yna dweud, "Simon fab Ioan wyt ti. Ond Ceffas fyddi di'n cael dy alw." (enw sy'n golygu'r un peth â Pedr, sef 'craig').



-
- 7 Teithiodd Iesu o Bethania i Bethsaida, sef tref enedigol Andreas a Pedr.



-
- 8 Yn Bethsaida daeth o hyd i Philip, a dweud wrtho, "Tyrd, dilyn fi."



-
- 9 Yna aeth Philip i edrych am Nathanael a dweud wrtho, "Dŷn ni wedi dod o hyd i'r dyn yr ysgrifennodd Moses amdano yn y Gyfraith, a'r un soniodd y proffwydi amdano hefyd — Iesu, mab Joseff o Nasareth."



-
- 10 "Nasareth?" meddai Nathanael, "— ddaeth unrhyw beth da o'r lle yna erioed?" "Tyrd i weld," meddai Philip.



-
- 11 Pan welodd Iesu Nathanael yn dod ato, meddai amdano, "Dyma ddyn fyddai'n twyllo neb — Israeliad go iawn!"



-
- 12 "Sut wyt ti'n gwybod sut un ydw i?" meddai Nathanael. Atebodd Iesu, "Gwelais di'n myfyrio dan y goeden ffigys, cyn i Philip dy alw di."



-
- 13 Dyma Nathanael yn ateb, "Rabbi, ti ydy mab Duw; ti ydy Brenin Israel."
Meddai Iesu wrtho, "Wyt ti'n credu dim ond am fy mod i wedi dweud i mi dy weld di dan y goeden ffigys?" Yna dwedodd wrthyn nhw i gyd "Cewch weld pethau mwy na hyn! Credwch chi fi, byddwch chi'n gweld y nefoedd yn agor, ac angyllion Duw yn mynd i fyny ac yn dod i lawr arna i, Mab y Dyn."



-
- 14 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported licence.

www.freebibleimages.org
